

## **Bwletin Awdurdod S4C - Gorffennaf 2003**

Mae'r isod yn crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod trafodaethau Awdurdod S4C yn ystod ei gyfarfod ddydd Gwener, 27 Mehefin 2003.

### **Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 23 Mai 2003. Tynnodd cadeirydd y Pwyllgor sylw at ddau fater penodol, sef:

- Adroddiad Blynyddol Archwiliad Mewnol 2002: bod yr archwilwyr o'r farn bod y dulliau gweithredu ar gyfer rheoli risg a'r contrôls o fewn y meysydd a archwiliwyd yn ddigonol ac yn effeithiol ac, felly, gallai Awdurdod S4C ddibynnu ar y system rheoli mewnol;
- Rheoli Risg: bod yr Awdurdod yn ei gyfarfod diwethaf wedi cytuno i'r cais i newid enw'r Pwyllgor Archwilio i'r 'Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg'.

### **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2002**

Cyfeiriwyd at gyhoeddiad yr Adroddiad Blynyddol y diwrnod cynt. Roedd yr Aelodau'n gytûn bod yr Adroddiad a gyhoeddwyd eleni â diwyg da iawn gyda chynnwys tipyn siarpach na llynedd. Roedd yr Awdurdod o'r farn bod yr adroddiad yn dangos S4C i fod yn gorff atebol a'i fod yn ddogfen ddefnyddiol oedd yn llwyddo i grynhoi holl ddigwyddiadau'r flwyddyn.

O ran y lawns i'r cyfryngau, teimlwyd bod ymateb da wedi'i dderbyn. Credwyd y dylid llongyfarch y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Rhaglenni a gweddill y Tîm Rheoli ar eu llwyddiant wrth ddenu'r ffigur cyrhaeddiad o 900,000. Roedd hyn yn dipyn o beth mewn byd cynyddol cystadleuol.

### **Cyfarfodydd parthed yr Adolygiad Allanol**

Nodwyd bod yna gyfarfod wedi'i gynnal gyda Peter Hain, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru a hefyd un gydag Alun Pugh, Gweinidog y Cynulliad dros Ddiwylliant. Esboniwyd iddynt resymau S4C dros ofyn i'r DCMS am adolygiad allanol. Cafwyd ymateb da ac adeiladol yn y ddau achos. Yn ogystal, roedd y Cadeirydd wedi cael sgwrs gyda Chadeirydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Y bwriad oedd i drefnu cyfarfod gyda'r Bwrdd i drafod goblygiadau'r adolygiad ac i asesu strategaeth y naill gorff yn erbyn y llall.

## **Apêl Elusennol S4C**

Diolchwyd a llongyfarchwyd y Pennaeth Marchnata a'i thîm ar eu gweithgareddau yn gysylltiedig â'r Apêl. Roedd y gwaith roeddynt wedi rhoi i mewn i'r rhain yn rhyfeddol ac yr oedd pob dim wedi mynd yn ardderchog dros y pythefnos diwethaf.

Nodwyd bod swyddogion yn dymuno cynnal asesiad o'r ymgyrch ar gyfer apêl eleni unwaith bod hwn wedi dod i ben. Yn benodol, wrth edrych ar y sefyllfa ar gyfer y flwyddyn nesaf yr oedd angen ystyried y ffordd fwyaf effeithiol o ymateb i'r byrdwn sylweddol yr oedd yr apêl yn gosod ar staff yr adran farchnata.

## **Cyfarfod gyda Llywodraethwr Cenedlaethol dros Gymru y BBC**

Adroddwyd ar gyfarfod a gafodd y Cadeirydd, y Prif Weithredwr a'r Ysgrifennydd gyda Llywodraethwr Cenedlaethol a Rheolwr y BBC. Bu hwn yn gyfarfod da a phositif.

## **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Derbyniwyd adroddiad y Prif Weithredwr a ganolbwyntiodd ar ddosraniad y gyllideb ar gyfer 2004. Wrth gyflwyno'i adroddiad arweiniodd y Prif Weithredwr yr Aelodau trwy nifer o wahanol pie-charts oedd yn amlinellu prif benawdau gwariant S4C. O safbwynt rhaglenni, roedd y siartiau yn adlewyrchu'r penderfyniadau oedd wedi'u cymryd ar gyfer 2004. Ymhelaethodd y Cyfarwyddwr Rhaglenni ar yr ystyriaethau wnaeth arwain at benderfyniadau comisiynu.

Cyfeiriwyd at y ffaith y byddai'r Cyfarwyddwr Rhaglenni yn gadael ei swydd ddiwedd yr haf. Manteisiodd yr Aelodau ar y cyfle yma i fynegi i Huw Eirug eu diolchgarwch a'u gwerthfawrogiad didwyll o'i holl waith yn ystod ei gyfnod gyda S4C, yn gyntaf fel comisiynydd ac yna fel Cyfarwyddwr Rhaglenni. Fe fyddai S4C yn ei golli a dymunwyd yn dda iddo i'r dyfodol.

## **Adolygiad Mewnol S4C: Meysydd Llafur**

Ystyriodd yr Aelodau adroddiad a wnaeth gyflwyno amlinelliad o'r prif feysydd llafur fyddai angen i S4C ymgymryd â nhw er mwyn paratoi ar gyfer adolygiad allanol. Ar ôl trafodaeth cytunwyd y dylid mabwysiadu'r hyn wedi'i gyflwyno fel y sail i'r adolygiad ar yr amod bod sylwadau'r Aelodau yn cael eu hymgorffori.

## **Adolygiad Mewnol: Senarios ar gyfer Teledu yn 2012**

Nodwyd adroddiad a wnaeth amgáu'r papur 'Future Reflections: Four scenarios for television in 2012'. Ystyriwyd y papur i fod yn un ddiddorol a defnyddiol iawn fel cefndir ar gyfer y trafodaethau i ddod ar yr adolygiad mewnol.

## Adroddiad Cydymffurfiaeth

Ystyriwyd adroddiad y Grwp Cydymffurfiaeth yn deillio o'i gyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Mehefin 2003. Yn benodol, gofynnwyd i'r Awdurdod ystyried nifer o elfennau yn ymwneud â'r gyfres *Bang Bang Bangkok*.

Roedd yr Aelodau eisoes wedi ystyried tâp o un rhaglen gyfan o'r gyfres er mwyn cael cyd-destun i'r hyn a gyflwynwyd ac, yn ychwanegol, gwylwyd tâp o glipliau wedi'u dethol o'r gyfres gyfan oedd yn codi ystyriaethau cydymffurfiaeth. Y cwestiwn a ofynnwyd i'r Awdurdod ganolbwyntio arno oedd priddoledd darlledwr gwasanaeth cyhoeddus yn darlledu rhaglenni o'r natur yma ynghyd â'r cyfrifoldebau oedd yn deillio o'r penderfyniad gwreiddiol i gomisiynu. Ymhlith yr hyn a ystyriwyd oedd agweddau parthed:

- oedd poblogaeth dlawd yn y Trydydd Byd wedi'i eexploitio
- oedd y grwp o bobl ifanc a aethpwyd allan i Bangkok wedi'u hecsploitio/wedi eu gosod mewn sefyllfa o berygl
- oedd hi'n briodol bod arian cyhoeddus yn talu am yr ymddygiad a adlewyrchwyd ar y sgrîn.

**Cytunwyd:** Nad oedd hi'n ddymuniad gan yr Awdurdod i ddatgan fel mater o bolisi na ddylai S4C ddarlledu rhaglenni o'r natur hyn. Roedd y fath yma o raglen yn codi cwestiynau pwysig i ddarlledwr cyhoeddus, ond roedd yr Awdurdod yn argyhoeddedig ei bod hi'n rhan o ddyletswydd S4C i dargedu cynulleidfya ifanc trwy raglenni fel *Bang Bang Bangkok*. Er hynny, roedd yna rai gwestiynau wedi codi ynglŷn â rhai agweddau a welwyd yn y rhaglenni, er enghraifft, ffyrnigrwydd yr ymladd, un o'r merched mewn pwll dwr wedi meddwi, cymryd cyffuriau, ac ati. Derbyniwyd sicrwydd y swyddogion bod y cwmni cynhyrchu wedi cydymffurfio â gofynion cyfreithiol iechyd a diogelwch. Roedd yr Awdurdod yn awyddus i bwysleisio pa mor bwysig yr oedd hi fod swyddogion y Sianel yn ogystal â'r tîm cynhyrchu yn rhoi ystyriaeth fanwl a gofalus i'r agweddau hyn yn achos cyfresi 'realiti' o'r fath arbennig hyn.

## Materion Eraill

Nodwyd trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Rhaglenni
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Cwynion
- Cofnodion cyfarfod y Grwp Cydymffurfiaeth a gynhaliwyd 13 Mehefin 2003
- Adroddiad Gwifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Chwarterol gan Reolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol